Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2014 - 2015

Awdurdod Derbyn: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgrifennydd y Fforwm: Mandy Jones, cyswllt Amanda.Jones@bridgend.gov.uk; ffôn: 01656 642629

Cyfeiriad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddiaeth Plant, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd yn Aelod o'r Fforwm	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Y Parch. P Manghan	Pennaeth, Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath. **Cadeirydd tan ganol mis Hydref 2014. Daeth ei aelodaeth i ben ganol mis Hydref 2014.**	5* mlynedd	**S/VA**
2. Mr R Davies	Rheolwr Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad (CBSPO) **Cadeirydd o ganol mis Hydref ymlaen 2014.**	0 mlynedd	**LA**
3. Mrs S O' Halloran	Pennaeth, Ysgol Gynradd Nottage **Dirprwy Gadeirydd tan ganol mis Hydref 2014.**	7* mlynedd	**S/CV**
4. Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd Archddiacon John Lewis **Dirprwy Gadeirydd tan ganol mis Hydref 2014**	2 flynedd	**S/VA**
5. Y Cynghorydd H David	Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc / Dirprwy Arweinydd (CBSPO)		
6. Ms S Rogers	Rheolwraig Tîm Mynediad, Cymorth i Ddysgwyr a Phlant (CBSPO) **Daeth ei aelodaeth i ben ganol mis Mawrth 2015**	3 blynedd	**LA**
7. Mrs M Treharne	Swyddog Cymorth Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr (CBSPO)	0 mlynedd	**LA**

	Dechreuodd ei haelodaeth ganol mis Mawrth 2015		
8. Mrs R Dixon	Pennaeth, Ysgol Y Ferch O'r Sger	6* blynedd	**S/CV**
9. Mrs A Carhart	Pennaeth, Ysgol Gyfun Maesteg	4 blynedd	**S/CV**
10. Mr W Bond	Rhiant-Lywodraethwr, Ysgol Arbennig Heronsbridge	7* mlynedd	**PG**

*Enwebwyd aelodau gan awdurdod priodol yn unol â gofynion aelodaeth craidd o dan adran 5 o Reoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003.

Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd		
Aelodau a Enwebwyd gan	**Aelodaeth Graidd**	**Acronym**
ALl – unrhyw aelod neu swyddog yn yr awdurdod	1 i 5	**LA, LA/SEN, LA/LAC**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru	1 i3	**CIW**
Cynrychiolwyr Esgobaethol Catholig	1 i 3	**RC**
Ysgolion – cymunedol ac a reolir yn wirfoddol	1 i3	**S/CV**
Ysgolion - sylfaen	1 i 3	**S/F**
Ysgolion – gwirfoddol a gynorthwyir	1 i 3	**S/VA**
Cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr	1 i 3	**PG**
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	**L/COM**

Dyddiadau cyfarfod a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer Aelodau'r Fforwm yn bresennol – yn ôl categori
Cyfarfod cyntaf	**23/10/14**	**6** **(3 x Cynrychiolydd ALl; 2 X Cyn. Ysgol, 1 x Cyn. Llywodraethwyr)**
Ail gyfarfod	**19/03/15**	**7** **(4 x Cyn. ALl; 2 X Cyn. Ysg., 1 x Cyn. Llywodraethwyr)**
Trydydd cyfarfod	**Amherthnasol**	

Cadarnhewch pa un a yw'r awdurdodau derbyn yn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a'r broses penderfynu ar y trefniadau derbyn o fewn y cyfnodau amser gofynnol o dan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os oes unrhyw awdurdod derbyn nad yw wedi cwblhau o fewn y cyfnodau amser rhowch fanylion yma.

Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi eu gweld gan yr awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Cwblhaodd pob awdurdod oddi mewn i Ben-y-bont ar Ogwr yr ymgynghoriad a phenderfynu ar y trefniadau derbyn ar gyfer 2015-16 o fewn y cyfnod amser a nodwyd yn y Rheoliadau.

Ni welwyd unrhyw ddogfennau ymgynghori gan awdurdodau derbyn eraill nad ydynt yn Awdurdodau Lleol ffiniol.

Pa drefniadau derbyn a sefydlwyd i wasanaethu buddiannau plant sy'n agored i niwed?

A fuont yn llwyddiannus?
Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi i gefnogi'r plant hyn?

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, blaenoriaethir plant sy'n derbyn gofal (PDG) i'w derbyn i'w dewis ysgol. Parhaodd y Tîm Derbyn i gydweithio â'r Cydlynydd Addysg PDG i sicrhau cyn lleied o oedi ag y bo modd cyn y câi disgybl sy'n derbyn gofal fanteisio ar addysg.

Parhaodd Y Gyfarwyddiaeth Plant i wneud pob ymdrech i alluogi plant i gadw eu lle mewn ysgol, pan fo'n ymarferol, yn dilyn penderfyniad i roi plentyn mewn gofal neu'n dilyn newid lleoliad, gyda'r nod o gyfyngu ar nifer y newidiadau / derbyniadau ysgol a chynnal parhad yn addysg y plentyn. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15, roedd modd i'r ALl adrodd lleihad o draean yng nghanran y plant a oedd yn derbyn gofal (ar 31 Mawrth) a oedd wedi newid ysgol unwaith neu fwy, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd o ganlyniad i drefniadau pontio. Parhaodd yr ALl i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol pan oedd Cynllun Gofal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn nodi y byddai cadw'r lle mewn ysgol er lles gorau'r plentyn.

Mae'r broses dderbyn ganolog yn caniatáu gwell rheolaeth a monitro ar dderbyn plant sy'n agored i niwed. Gall plant sydd ag ymddygiad heriol fod ymhlith yr anoddaf i'w lleoli. Sefydlodd yr ALl Banel Mynediad Teg (PMT), a gynhaliodd ei gyfarfod cychwynnol ym mis Ebrill 2015. Mae'r PMT yn cyfarfod bob 6 wythnos a'i bwrpas creiddiol yw datblygu strategaeth a thrafod gwaharddiadau a derbyniadau mewn Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Arbennig a Darpariaeth Amgen y Bont (yr Uned Cyfeirio Disgyblion fel y'i gelwid yn flaenorol) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ei brif amcanion yw:

- gweithio'n gydweithredol er lles gorau disgyblion;
- goruchwylio gwaharddiadau a thrafod derbyniadau;
- datblygu a monitro symudiadau a reolir;
- hyrwyddo'r gwaith o rannu arfer da a datblygu cysondeb;
- datblygu dull cyson o leihau nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mae'r PMT yn adolygu pob achos unigol lle gallai fod anawsterau o ran lleoli disgyblion a phenderfynu ar ffordd briodol ymlaen.

Yn ogystal, mae 2 banel derbyn penodol sy'n gweithredu yn Narpariaeth Amgen y Bont:

- y panel CAMHS a Meddygol Cymhleth, sy'n cyfarfod bob mis. Mae'r panel hwn yn disodli ein Panel Grwpiau Agored i Niwed blaenorol;
- y Panel Lleoli Disgyblion, sy'n cyfarfod bob mis ac sy'n ystyried disgyblion a atgyfeiriwyd ar gyfer lleoliad arbenigol i'n darpariaethau Cyflawni am Oes (A4L) a Llwybrau Cadarnhaol.

Pa mor dda y mae eich gweithdrefnau ar gyfer derbyn yn ystod y flwyddyn wedi gweithio?
Faint o blant sydd wedi eu derbyn i bob ysgol o dan y gweithdrefnau?
Ydych chi wedi nodi cynnydd yn niferoedd y derbyniadau yn ystod y flwyddyn ysgol, os felly pa gamau sydd wedi eu nodi i fynd i'r afael â'r broblem?

Ym mlwyddyn academaidd 2013-14, prosesodd tîm derbyn yr ALl 776 o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn ysgol; 542 o geisiadau sector cynradd a 234 o geisiadau sector uwchradd. O'r rhain, nid aeth 77 o geisiadau sector cynradd a 50 o geisiadau sector uwchradd yn eu blaenau.

O'i gymharu â hyn, yn 2014-15, prosesodd yr ALl 936 o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 21%); 631 o geisiadau sector cynradd a 275 o geisiadau sector uwchradd. O'r rhain, nid aeth 103 o geisiadau sector cynradd a 57 o geisiadau sector uwchradd yn eu blaenau.

Mae gan yr ALl broses gadarn ac ystyrir pob cais yn ôl nifer derbyn gyhoeddedig ysgol a threfniant presennol y dosbarthiadau.

Pa ystyriaethau derbyn allweddol sydd wedi eu nodi yn yr ardal?
Beth ydynt a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â hwy?

Yn 2014/15, y materion allweddol a ystyriwyd ac y penderfynwyd arnynt gan y Fforwm Derbyn oedd:

- **Yr Adroddiad Blynyddol –** cymeradwyodd y Fforwm yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-14.
- **Polisi Derbyniadau Drafft 2015-16 –** cymeradwyodd y Fforwm bolisi drafft yr ALl.
- **Dyddiadau Cyffredin** – cymeradwyodd y Fforwm ddyddiadau dychwelyd / dyddiadau cynnig ar gyfer derbyniadau 2016-17, i'w dosbarthu i ysgolion VA.
- **Derbyniadau ar-lein** – diweddarwyd y Fforwm am statws cynlluniau ar gyfer datblygu system dderbyn ar-lein.
- **Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg** – diweddarwyd y Fforwm ar Ymgynghoriad Teithio Dysgwyr yr ALl, a bwriedir i'r newidiadau gael eu gweithredu o fis Medi 2016 ymlaen. Nodwyd hefyd i ganllawiau manylach ynghylch llwybrau diogel a diogelwch disgyblion gael eu cynnwys yn 'Canllawiau Gweithredu' Llywodraeth Cymru, a oedd wedi eu cymeradwyo yn ogystal â chylch gorchwyl Grŵp Ymgynghorol yr ALl ar Gludiant Ysgolion.
- **Gwybodaeth y Fforwm Derbyn ar wefan yr ALl –** gofynnodd y Fforwm am gael creu maes penodol ar gyfer cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol, a chytunwyd wedyn i weithredu hyn.

- **Dalgylchoedd ysgolion –** dymunai'r Fforwm ei gwneud yn haws i rieni/gofalwyr nodi ysgol eu dalgylch a gofynnwyd am ystyriaeth o'r modd y gellid trefnu bod y wybodaeth hon ar gael trwy wefan yr ALl.
- **Polisïau Derbyn 2016-17 Drafft** – ystyriodd y Fforwm y polisi drafft a chymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd ynghylch diwrnod 'Cynnig Cenedlaethol Cymru Gyfan' ar gyfer lleoedd ysgolion uwchradd a'r amserlen dderbyn ar gyfer ysgolion uwchradd. Cytunwyd ar ddyddiadau i rieni/gofalwyr gael gwybod am ganlyniadau ceisiadau derbyn.
- **Cyfamod y Lluoedd Arfog –** Trafododd a hyrwyddodd y fforwm safiad yr ALl ar statws Cyfamod y Lluoedd Arfog a chytuno i roi sylw dyledus i hyn yn ei bolisi derbyn drafft a threfniadau wrth symud ymlaen.

Pa ddulliau a ddefnyddiwyd gan y Fforwm i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniadau a wnaed ganddo?

Rhannwyd ymatebion gan y Fforwm i gynigion/materion â rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig, ysgolion, cyrff llywodraethu eraill, trwy gyfryngau cyfathrebu arferol yr ALl.

Gofynnwyd am neilltuo adran benodol o wefan yr ALl, er mwyn cyhoeddi yn y dyfodol Gylch Gorchwyl y Fforwm a chofnodion cyfarfodydd yn ogystal â'r Adroddiadau Derbyn Blynyddol.

Dyddiad cyhoeddi cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod Derbyn:

Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfodydd y Fforwm a gynhaliwyd ym mis Hydref 2014 a mis Mawrth 2015 ar dudalen a neilltuwyd i'r Fforwm Derbyn i Ysgolion ar wefan CBSPO ym mis Medi 2015.

http://www1.bridgend.gov.uk/services/schools/school-admissions-forum.aspx

http://www1. bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/schools/fforwm-derbyn-i-ysgolion.aspx

Llofnodwyd: Mandy Jones (Ysgrifennydd y Fforwm)

Dyddiad: 08/12/14

A wnewch chi ddychwelyd yr adroddiad wedi'i gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2015 i:

SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Derbyn ac Apeliadau ar gyfer Ysgolion

ATODIAD A

Derbyniadau ac Apeliadau Ysgolion

Yn y rownd derbyniadau 2014/15 fe wnaeth y cyngor trin 3,250 o geisiadau derbyn.
Mae dadansoddiad mewn perthynas â phob ysgol yn cael ei ddangos isod.

Ysgol	Nifer o Dderbyniadau Cyhoeddi	Nifer o Geisiadau	Nifer o Geisiadau Llwyddiannus	Nifer o Apeliadau	Nifer o Apeliadau Llwyddiannus
Ysgolion Gynradd					
Ysgol Gynradd Abercerdin	25	35	35	0	0
Ysgol Gynradd Afon y Felin	15	21	21	0	0
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis	30	9	9	0	0
Ysgol Gynradd Betws	30	27	27	0	0
Ysgol Gynradd Blaengarw	24	21	21	0	0
Ysgol Gynradd Bracla	45	31	31	0	0
Ysgol Gynradd Bryncethin	30	41	41	0	0
Ysgol Gynradd Brynmenyn	22	26	26	0	0
Ysgol Fabanod Bryntirion	40	36	36	0	0
Ysgol Gynradd Caerau	45	47	47	0	0
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	20	24	24	0	0
Ysgol Fabanod Cefn Glas	66	66	66	0	0
Ysgol Gynradd Coety	19	31	31	0	0
Ysgol Gynradd Corneli	46	36	36	0	0
Ysgol Gynradd Llangrallo	12	15	15	0	0
Ysgol Gynradd Croesty	30	31	30	1	1
Ysgol Gynradd Cwmfelin	30	30	30	0	0
Ysgol Gynradd Ffaldau	27	21	21	0	0
Ysgol Gynradd Garth	30	21	21	0	0
Ysgol Gynradd Llidiard	60	55	55	0	0
Ysgol Plant Iau Llangewydd	66	78	78	0	0
Ysgol Gynradd Llangynwyd	11	11	11	0	0
Ysgol Gynradd Maes yr Haul	69	71	71	0	0
Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig	49	47	47	0	0
Ysgol Plant Iau Mynydd Cynffig	46	48	48	0	0

Ysgol Gynradd Nantyffyllon	40	32	32	0	0
Ysgol Gynradd Nant-y-Moel	30	33	33	0	0
Ysgol Gynradd Newton	33	30	30	0	0
Ysgol Gynradd Notais	60	52	52	0	0
Ysgol Gynradd Cwm Ogwr	53	49	49	0	0
Ysgol Gynradd Hengastell	50	56	56	0	0
Ysgol Gynradd Pen-coed	70	71	71	0	0
Ysgol Gynradd Pen-y-bont	45	45	45	0	0
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Pen-y-fai	23	20	20	0	0
Ysgol Gynradd y Pîl	30	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Plasnewydd	45	35	35	0	0
Ysgol Gynradd Porthcawl	25	16	16	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	30	28	28	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig	25	32	32	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert	22	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Ton-du	42	23	23	0	0
Ysgol Gynradd Trelales	30	31	30	0	0
Ysgol Gynradd Tremaen	65	68	68	0	0
Ysgol Gynradd Tynyrheol	10	10	10	0	0
Ysgol Gynradd West Park	55	56	56	0	0
Ysgol Gynradd Bro Ogwr	54	60	60	0	0
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw	30	14	14	0	0
Ysgol Cynwyd Sant	45	42	42	0	0
Ysgol Y Ferch o'r Sger Corneli	33	40	40	0	0
Cyfanswm		**1766**	**1764**	**1**	**1**
Ysgolion Gyfun					
Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath	124	117	117	0	0
Ysgol Gyfun Brynteg	333	210	210	0	0
Ysgol Gyfun Bryntirion	210	165	165	0	0
Coleg Cymunedol Y Dderwen	276	231	231	0	0
Ysgol Gyfun Cynffig	180	120	120	0	0
Ysgol Gyfun Maesteg	228	177	177	0	0
Ysgol Gyfun Pen-coed	214	157	157	0	0

Ysgol Gyfun Porthcawl	246	192	192	0	0
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	165	115	115	0	0
Cyfanswm		**1484**	**1484**	**0**	**0**